
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	01.02.23
Pwnc / Subject:	Bil Bwyd (Cymru)

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb Estyn

Rydym yn cefnogi diben ac egwyddorion cyffredin Bil Bwyd (Cymru). Rydym yn cefnogi'r prif nod bwyd a'r pedwar nod bwyd eilaidd. Mae'r nodau hyn yn cefnogi nodau ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r ddarpariaeth bwyd mewn ysgolion wedi gwella o ganlyniad i Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 a chanllawiau statudol Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a Gynhelir (2014) i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol. Yn fwy diweddar, mae dechrau cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd yn dechrau cael effaith gadarnhaol bellach ar yr hyn y mae plant ifanc yn ei fwyta a'i yfed mewn ysgolion cynradd, gydag 1.5 miliwn ychwanegol o brydau ysgol am ddim yn cael eu gweini mewn ysgolion cynradd rhwng Medi a Rhagfyr 2022.¹

Mae maes dysgu a phrofiad lechyd a Lles yn y Cwricwlwm i Gymru yn mynnu bod dysgu am fwyta ac yfed yn iach yn cael ei ddarparu i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir.

Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth fydd goblygiadau llawn y Bil i ddarparwyr addysg, gan gynnwys ysgolion, gan nad yw darparwyr unigol yn cael eu henwi'n gyrrff cyhoeddus. Gwasanaethau arlwygo awdurdodau lleol sy'n darparu llawer o'r bwyd a'r diodydd a weinir mewn ysgolion, a byddai effaith ar y gwasanaethau hyn gan mai'r awdurdod lleol yw'r corff cyhoeddus a enwir yn y Bil.

Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu cyrrff eraill trwy reoliadau ac nid yw'n glir a yw unrhyw ddarparwyr addysg yn debygol o gael eu hychwanegu trwy reoliadau. Mae nifer gynyddol o ysgolion, ysgolion uwchradd yn bennaf, yn dewis peidio â derbyn gwasanaethau arlwygo'r awdurdod lleol a naill ai'n darparu eu gwasanaeth eu hunain neu'n comisiynu cwmni allanol i ddarparu gwasanaeth. I sicrhau bod y Bil yn cael effaith gyfartal, dylid ystyried sicrhau bod y Bil yn cwmpasu darparu bwyd a diod ym mhob ysgol, nid dim ond y rhai sy'n prynu gwasanaeth gan awdurdod lleol.

Mae ein hadroddiad thematig, '[Iach a hapus: effaith ysgolion ar iechyd a llesiant disgyblion](#)', yn nodi heriau parhaus o ran annog plant a phobl ifanc i ddewis bwyta bwyd iach yn yr ysgol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Er enghraifft, nodom fod ffactorau pwysig y tu hwnt i ddarparu bwyd iach ei hun sy'n gyrru ymddygiad disgyblion:

Nid oes gan bob ysgol ddigon o le i ddisgyblion eistedd a bwyta pryd bwyd amser cinio, gan gynnwys ysgolion a adeiladwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn fwy amlwg yn broblem mewn ysgolion uwchradd ac mae'n rhan o'r rheswm pam nad yw disgyblion yn bwyta pryd cytbwys, yn cynnwys ffrwythau a llysiau, ond yn hytrach yn dewis opsiynau bwyd cyflym sy'n uchel mewn carbohydradau, fel sglodion, rholiau bacwn, tafelli pítsa, paninis, baguettes a photiau pasta. Yn ogystal, mae ysgolion uwchradd wedi byrhau amser cinio ac mae hyn hefyd yn cyfrannu at ddewis bwyd cyflym...

Cytunwn â'r gwrthdaro posibl rhwng nodau bwyd eilaidd a nodwyd yn [ymateb CLIC i'r ymgynghoriad](#) ar Fil Bwyd (Cymru) drafft:

Mewn ysgolion, mae prydau iachach yn llai poblogaidd yn gyffredinol ac yn cyfrannu at fwy o wastraff na bwydydd 'cyfeillgar i blant' (e.e. bysedd pysgod eog o gymharu â bysedd pysgod penfras; pys neu ffa pob; tatws wedi'u berwi neu

¹ '[1.5 miliwn o brydau ychwanegol yn cael eu gweini drwy'r cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd](#)' Llywodraeth Cymru, 2022

sglodion). O fewn ysgolion, mae'n afrealistig disgwyl i'r nod bwyd eilaidd, sef 'lleihau gwastraff bwyd gan gynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr', gael ei gyflawni tra'n parhau i gynyddu iechyd bwyd mewn ysgolion, sy'n debygol o fod yn ymyrraeth barhaus gan y nod bwyd eilaidd arall sy'n gysylltiedig â 'lleihau gordewdra'.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai darparwyr yn cael arweiniad ar sut i reoli gwrthdaro rhwng y nodau eilaidd.

Mewn egwyddor, cytunwn y dylid gosod targed ar gyfer pob nod bwyd eilaidd. Gall targedau fod yn ddefnyddiol wrth gefnogi gwelliannau, ond nodwn y gall targedau weithiau annog ymddygiadau di-fudd neu arwain at ganlyniadau anfwriadol. Awgrymwn y dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori ag arweinwyr mewn awdurdodau lleol a darparwyr addysg am oblygiadau posibl y targedau cyn eu gosod.

Nid yw goblygiadau cost y Bil yn glir ar hyn o bryd, ond mae'n debygol y bydd y Bil yn arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol. Gallai'r costau hyn gael eu trosglwyddo i ysgolion. Os bydd y rheoliadau'n enwi ysgolion yn gorff cyhoeddus, gallai'r Bil effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw hefyd. Bydd hi'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n darparu digon o gefnogaeth ariannol i'r Bil fel nad oes effaith andwyol ar y gwariant craidd ar addysg.